Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**GORCHYMYN RHEOLI TRAFFIG**

# BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (FFYRDD AMRYWIOL) (CYFLWYNO PARTHAU BYFFER) GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG PARHAOL 2026

## HYSBYSIAD O GYNNIG

RHODDIR HYSBYSIAD DRWY HYN fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 84 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwneud y terfynau cyflymder o 40 milltir yr awr sydd ar waith ar hyn o bryd o dan Orchymyn Rheoleiddio Traffig Dros Dro Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Amrywiol Ffyrdd) (Cyflwyno Parthau Clustogi) 2025 yn barhaol, a gyflwynodd “cylchfeydd rhagod” 40 milltir yr awr dros dro ar yr adrannau o ffyrdd a bennir yn Atodlen 1 isod.

Os gwneir y Gorchymyn arfaethedig, bydd y trefniadau dros dro yn cael eu disodli gan derfynau cyflymder parhaol o 40-mya ar yr un darnau o ffyrdd.

Mae Atodlen 2 isod yn nodi dirymiad canlyniadol o adran o orchymyn presennol.

Mae copi o’r Gorchymyn, a mapiau sy’n dangos yr ardaloedd yr effeithir arnynt ar gael am ddim:

- drwy gysylltu â traffictransportation@bridgend.gov.uk neu
- dros y ffôn drwy'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Ffôn: 01656 643643 (dyfynnwch y cyfeirnod TRA001369 i drefnu apwyntiad
- neu ar-lein yn: https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/

Rhaid anfon gwrthwynebiadau neu sylwadau i'r cynigion, ynghyd â'r sail dros eu gwneud, yn ysgrifenedig at y person sydd wedi arwyddo isod yn y cyfeiriad isod, neu drwy ebostio traffictransportation@bridgend.gov.uk, erbyn 11 Mawrth 2026. Nodwch y ffordd y mae eich sylwadau'n crybwyll trwy ddefnyddio'r rhif sy'n ymddangos yn nhrydydd golofn yr Atodlen isod.

Os ydych yn cael unrhyw anhawster yn ymateb yn ysgrifenedig, neu os oes angen yr hysbysiad mewn fformat arall, er enghraifft, print bras, sain, braille neu ffacs, gwnewch eich cais drwy e-bost neu dros y ffôn gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a roddir uchod.

Sylwch y gall y Cyngor ystyried yr holl sylwadau a dderbynnir yn gyhoeddus ac y gallai sylwedd unrhyw sylw (ynghyd ag enw a chyfeiriad y sawl sy'n ei wneud) fod ar gael i'r cyhoedd ei archwilio.

Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

Dyddiedig: 18 Chwefror 2026

K Watson, Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB

ATODLEN 1

Rhannau o ffyrdd sy'n destun i derfyn cyflymder 40-mya yn barhaol er mwyn creu cylchfa ragod

| **Enw'r Ffordd** | **Graddfa'r terfyn cyflymder 40-mya** | **Rhif** |
|---|---|---|
| A4061 Nantymoel | O bwynt i'r gogledd o'r gyffordd â'r A4061 a Heol yr Orsaf, tua'r gogledd am bellter o tua 300 metr. | 1. |
| Heol Newydd, Tondu | O bwynt i'r gogledd o'i chyffordd â Heol Derllwyn tua'r gogledd am bellter o tua 400 metr. | 2. |
| Heol Castell-nedd, Maesteg | O ochr orllewinol cyffordd Heol Castell-nedd â Thair Waun Place, Maesteg tua'r gogledd-orllewin am bellter o tua 300 metr. | 3. |
| Heol Betws rhwng Brynmenyn a Betws | O bwynt tua 90 metr i'r gogledd o ffin ogleddol eiddo rhif 20 Heol Betws tua'r gogledd a'r gogledd-ddwyrain i bwynt tua 87 metr i'r de o'i chyffordd gyda Rhodfa Tudur Betws, pellter o tua 1.1 cilometr. | 4. |
| Lôn o Heol Betws i Goetrahen | O'r gyffordd â Heol Betws tua'r gorllewin am bellter o tua 995 metr | 5. |
| A4093 Glynowgr | O bwynt 145 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â'r lôn ddienw ochr yn ochr â'r tŷ o'r enw White Croft Glynogwr i'r dwyrain ac i'r de-ddwyrain am bellter o tua 1.2 cilomedr. | 6. |

ATODLEN 2

Dirymu gorchymyn presennol o ganlyniad i'r terfyn cyflymder 40-mya a nodir uchod

| **Enw'r Ffordd** | **Gorchymyn Presennol** | **Graddfa'r Dirymiad** |
|---|---|---|
| A4093 Glynogwr | Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Ffyrdd Amrywiol) (Dirymu ac Amrywio Terfynau Cyflymder) 2024 | Mae paragraff 51 o Atodlen 1 wedi'i ddirymu fel bod terfyn cyflymder o 40-mya yn gymwys i'r darn penodedig o ffordd. |